| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD** | 18 Mehefin 2015 |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | Safonau'r Gymraeg – Ymgynghori ar yr Hysbysiadau Cydymffurfio |
| **ARGYMHELLIAD** | Gofynnir i'r aelodau:<br>- drafod a chytuno ar y dull y dymuna'r Pwyllgor Iaith ei hun sicrhau mewnbwn i'r ymgynghoriad ar y Safonau Iaith – Hysbysiadau Cydymffurfio. |
| **AWDUR** | Debbie A W Jones<br>Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (ac Iaith) |

## 1. CEFNDIR

1.1 Ar 9 Mehefin 2015, derbyniodd y Cyngor ohebiaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg yn cadarnhau'r amserlen ar gyfer cychwyn y broses o ymgynghori gyda sefydliadau ar yr hysbysiadau cydymffurfio drafft, yn unol ag Adran 47 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

1.2 Mae'r cyfnod ymgynghori ar yr hysbysiad cydymffurfio yn cychwyn ar 22 Mehefin 2015, a bydd dogfennaeth bellach yn cael ei anfon at y Cyngor ar y diwrnod hwn yn amlinellu'r hyn a ddisgwylir fel rhan o'r ymgynghoriad.

1.3 Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi cyfrfifoldeb y pwyllgor Iaith fel a ganlyn:

*"Pennu cyfeiriad strategol a chydymffurfiaeth mewn ymateb i'r Safonau Iaith a osodir gan Gomisiynydd y Gymareg gan roi sylw i waith y Cyngor ac unrhwy waith partneriaeth neu gydweithio"*

O ganlyniad, mae'n hollbwysig sicrhau mewnbwn y Pwyllgor Iaith i'r ymgynghoriad ar y Safonau Iaith Hysbysiad Cydymffurfio.

## 2. AMSERLEN SAFONAU'R GYMRAEG – HYSBYSIADAU CYDYMFFURFIO

2.1. Yn yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, cadarneir yr amserlen ganlynol mewn perthynas â'r Safonau Iaith - Hysbysiadau Cydymffurfio:

<u>22 Mehefin 2015</u>
Cyfnod ymgynghori ar yr hysbysiad cydymffurfio yn cychwyn

<u>20 Gorffennaf 2015</u>
Cyfnod ymgynghori yn dod i ben. Y Comisiynydd yn dadansoddi'r ymatebion ac yn llunio hysbysiadau cydymffurfio terfynol ar gyfer bob sefydliad.

Medi 2015
Y Comisiynydd yn gosod hysbysiadau cydymffurfio terfynol ar y 26 sefydliad (o dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

## 3. CAMAU NESAF

3.1 O ystyried yr amserlen uchod, ynghyd â'r ffaith na fydd unrhyw ddogfennaeth bellach yn cael ei anfon at y Cyngor yn amlinellu'r hyn a ddisgwylir fel rhan o'r ymgynghoriad tan 22 Mehefin 2015; mae'n gynamserol i gynnal unrhyw drafodaeth ystyrlon ar yr ymgynghoriad arfaethedig yn y Pwyllgor Iaith hwn.

3.2 Yn ystod y cyfnod ymgynghori, felly, ystyrir o ochr swyddogion y Cyngor, fod mewnbwn y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Grŵp Rheoli yn allweddol; oherwydd mai hwy fydd yn gyfrifol am ystyried unrhyw oblygiadau i weithredu'r Safonau Iaith.

3.3 Yr Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg fydd yn anfon unrhyw sylwadau ar ran y Cyngor mewn ymateb i'r ymgynghoriad. Er mwyn ei gynorthywo ef – ac o ystyried cyfrifoldeb penodol y Pwyllgor Iaith fel y nodir yn y Cyfansoddiad – mae'n ofynnol sefydlu trefn er sicrhau mewnbwn y Pwyllgor Iaith.

3.4 Nid oes cyfarfod o'r Pwyllgor Iaith wedi ei raglennu o fewn y cyfnod ymgynghori a nodir gan Gomisiynydd y Gymraeg. O ganlyniad, mae 2 opsiwn posib er mwyn sicrhau mewnbwn aelodau'r pwyllgor i'r ymgynghoriad:

i) cynnal cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Iaith cyn 20 Gorffennaf 2015
ii) cynnull is-grŵp o'r Pwyllgor Iaith cyn 20 Gorffennaf 2015.

3.3 Caiff yr holl sylwadau a dderbynnir drwy'r fforymau a nodir uchod eu dwyn ynghyd i ffurfio ymateb terfynol y Cyngor i'r ymgynghoriad, a bydd yr ymateb hwnnw yn cael ei anfon at Gomisiynydd y Gymraeg yn enw'r Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg.

## 4. ARGYMHELLION

4.1. Gofynnir i'r aelodau:

- drafod a chytuno pa ddull y dymuna'r Pwyllgor Iaith ei hun sicrhau mewnbwn i'r ymgynghoriad ar y Safonau Iaith – Hysbysiadau Cydymffurfio.